



CYNGOR CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

YSGOL GYNRADD DWY FFRWD

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- Sefydlu ysgol gynradd dwy ffrwd â dau ddsbarth mynediad newydd gyda darpariaeth feithrin i wasanaethu cyfnodau cynnar datblygiad Plasdŵr (i'r de/de-orllewin o gylchfan Heol Llantrisant/Heol Isaf, CF15 8DX)

Bwriedir gweithredu'r cynnig o fis Medi 2021.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

<https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=3814&Ver=4>

Bydd gan yr ysgol newydd gapasiti o 420 o leoedd ar gyfer plant 3-11 oed.

Bydd yr ysgol yn cael ei threfnu fel a ganlyn:

- Un dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg (30 o leoedd fesul grŵp blwyddyn)
- Un dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg (30 o leoedd fesul grŵp blwyddyn)

Bydd 48 o leoedd rhan-amser yn y feithrinfa ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 o leoedd rhan-amser yn y feithrinfa ar gyfer y ffrwd Saesneg.

O ran y cynnig ar gyfer yr ysgol newydd, cynigir y canlynol:

- Bydd yr ysgol yn ysgol gymunedol ac yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw
- Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl gallu na bandio disgyblion.
- Caiff 60 o ddisgyblion eu derbyn i Ddsbarth Derbyn yr ysgol (sef y grŵp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion.

Cynigir cynyddu'r Nifer Derbyn gam wrth gam gyda'r Dosbarth Derbyn yn derbyn hyd at 30 o ddisgyblion fesul ffrwd a blwyddyn 1-2 yn gweithredu ar sail Nifer Derbyn is o 15 ym mis Medi 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y caiff y derbyniadau i'r ysgol eu gweinyddu ar ôl ei sefydlu:

Sefydlu'r ysgol gam wrth gam a chynyddu'r Nifer Derbyn								
Blwyddyn	Meithrinfa	DD	1	2	3	4	5	6
2021-22	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	15 CS 15 CC	15 CS 15 CC	0	0	0	0
2022-23	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	15 CS 15 CC	15 CS 15 CC	0	0	0
2023-24	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	15 CS 15 CC	15 CS 15 CC	0	0
2024-25	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	15 CS 15 CC	15 CS 15 CC	0
2025-26	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	15 CS 15 CC	15 CS 15 CC
2026-27	48 CS 48 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC	30 CS 30 CC

Cyngor Caerdydd fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol gynradd newydd ac fe gaiff ceisiadau ar gyfer derbyn eu hasesu yn unol â threfniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Bydd rhieni plant a dderbyniwyd ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr Ysgol os ydynt am i'w plentyn i drosglwyddo i'r dosbarth derbyn.

Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu y cewch eich derbyn i'r ysgol.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Gwneir unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion yn unol â pholisiau presennol yr Awdurdod Lleol ar drafnidiaeth ysgol.

Ymhen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 24 Mawrth 2020 gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

